Ysgol Gynradd Gymraeg Bryniago

'Dim ond ein gorau glas sy'n ddigon da.'



Rhagfyr 2026

Llawlyfr Meithrin

YGG Bryniago

Nursery Handbook

2026-2027

Dim ond ein gorau glas sy'n ddigon da.

Croeso cynnes i deulu a chymuned glos Ysgol Bryniago. Mawr obeithiwn y cewch flynyddoedd hapus a chofiadwy yn ein hysgol ac fe edrychwn ymlaen yn fawr at gydweithio â chi er lles eich plentyn.

Ein nod yma yn adran cynnar Bryniago Bach, yw i greu awyrgylch hapus, croesawgar a hamddenol lle bydd pob plentyn yn teimlo'n ddiogel ac yn cael cyfleoedd gwerthfawr i fwynhau profi amrywiaeth o weithgareddau chwarae strwythuredig a phwrpasol. Mae profiadau cyntaf eich plentyn yn yr ysgol yn hynod werthfawr. Trysorwch bob eiliad!

Cofiwch gysylltu os ydych yn dymuno cael cyfle i siarad am unrhyw faterion perthnasol. Hyderwn y bydd y llawlyfr hwn o fudd i chi ac fe edrychwn ymlaen at sefydlu partneriaeth agos â chi fel teulu.

The staff of Ysgol Bryniago warmly welcome you and your child to our school. We sincerely hope that you will enjoy many happy years in our company and we are very much looking forward to working with you for the wellbeing and development of your child.

Our aim is to create a happy, welcoming and relaxed environment here in the Nursery where your child will feel safe and enjoy experiencing a variety of structured and purposeful play activities.

We hope that this handbook will prove beneficial to you and we look forward to working with you as a family.

Dyma'r dosbarth/ This is the classroom



Staff y Meithrin Bore/ Morning Nursery Staff



Athrawes Feithrin (bore/ mornings):

Nursey Teacher:

Miss Megan Owens



Cynorthwy-ydd Dosbarth

Classroom Assistant:

Mrs Jackie Francis



Cynorthwy-ydd Dosbarth

Classroom Assistant:

Mr Llyr Evans

Staff y Meithrin Prynhawn/ Afternoon Nursery Staff



a/or

Athrawes Feithrin:

Nursey Teacher:

Miss Rhiannon Evans

Cynorthwy-ydd Dosbarth

Classroom Assistant:

I'w gadarnhau/TBC

Meithrin Bore:

08:50 – 11:20:

Morning Nursery

Meithrin Prynhawn:

12:50 – 15:20:

Afternoon Nursery

Amseroedd yr Ysgol:

08:50yb—15:20

School Session

Amseroedd yr Ysgol:

08:50yb—15:20

School Session

Derbyn Disgyblion/ Admissions

Mae YGG Bryniago yn derbyn plant yn rhan amser y tymor ar ôl eu pen-blwydd yn dair oed cyn belled a bod lle yn y dosbarth. Os yw rhifau yn caniatau yna cynhelir sesiwn Meithrin bore a phrynhawn. Cysylltwch â'r ysgol i gael mwy o fanylion am y polisïau derbyn disgyblion.



Children can access a part-time nursery place in YGG Bryniago from the start of the term following their third birthday. A morning and afternoon session is held (dependant on pupil numbers). Please contact the school to gain more information on the school's admission policy.

Gwisg Ysgol/ School Uniform



Gofynnwn i'r disgyblion wisgo gwisg ffurfiol yr ysgol. Er mwyn archebu'r gwisg ysgol bydd angen i chi ymweld â'r safle we isod.

http://www.pictonsports.co.uk/?

Rydym yn annog y plant i fod mor annibynnol â phosib ac felly mae eisiau i chi ystyried beth mae nhw'n wisgo.

All pupils will need to wear school uniform. To order your uniform visit the website below.

http://www.pictonsports.co.uk/?

We actively encourage the children to be as independent as possible; therefore it is important that you think about what they wear to school.

Dod i'r ysgol a Chasglu o'r ysgol/

Arriving in school and collecting from school

Gofynnwn yn garedig i chi barcio mewn man call a synhwyrol os gwelwch yn dda, gan osgoi parcio ar draws meysydd parcio tai cyfagos na pharcio ar y palmantydd.

Bydd plant y Meithrin yn cerdded i mewn i'r ysgol trwy brif giât Bryniago Bach. Bydd aelod o staff yn derbyn eich plentyn ger y giât. Sefwch mewn rhes ar yr ochr dde (ar y palmant sy'n mynd heibio adeilad Bryniago Bach).

Bydd plant y Meithrin yn gadael trwy brif giât Bryniago Bach hefyd. Sefwch mewn rhes ar yr ochr dde (ar y palmant sy'n mynd heibio adeilad Bryniago Bach). Bydd aelod o staff y dosbarth yn gofyn i bob rhiant/ gofalwr am



enw ei plentyn. Bydd yr athro/wes yn galw enw eich plentyn. Casglwch eich plentyn a gadewch y safle cyn gynted â phosibl, os gwelwch yn dda

Please park in a safe and sensible location. Avoid obstructing a neighbour's drive, if possible. Do not park on the pavement either as this endangers our pupils' lives.

The Nursery children will enter school via the Bryniago Bach main gates. A member of staff will welcome your child at the Bryniago Bach gate. Please queue on the <u>right</u> hand side (on the footpath alongside the Bryniago Bach building).

The Nursery children will leave via the main Bryniago Bach gates too. Please queue on the <u>right</u> hand side (on the footpath alongside the Bryniago Bach building). A member of staff will ask each parent/ carer for the name of their child. A member of staff will call each child in order. Please collect your child and leave immediately.

Absenoldebau/ Absences



Rhaid hysbysu'r ysgol os yw eich plentyn yn sâl neu'n mynd i fod yn hwyr am unrhyw reswm meddygol. Ffoniwch y swyddfa ar 01792 882012 a gadewch neges ar beiriant ateb yr ysgol. Dylech hysbysu'r ysgol ar ddiwrnod cyntaf salwch eich plentyn ac ar y trydydd diwrnod, pe bai'r salwch yn parhau.

Swyddog lles yr ysgol yw Mrs Rhiannon Smith. Efallai y bydd mewn cysylltiad â chi pe bai gan yr ysgol gonsyrn am bresenoldeb eich plentyn.

Os bydd eich plentyn yn sâl yn ystod oriau'r ysgol, fe fyddwn yn cysylltu â chi er mwyn i chi ddod i gasglu eich plentyn. Mewn achosion o fethu cael gafael ar riant, fe fyddwn yn cysylltu â'r rhifau ffôn eraill y byddwch wedi eu rhoi i ni. Gofynnwn i chi gysylltu â ni yn syth pan fo rhifau ffôn/cyfeiriad yn newid.

You must let us know if your child is going to absent due to illness or a medical appointment. *Please ring the main office on 01792 882012 and leave a message on the school's answering system. You should inform us that your child is ill on the first day of absence. If your child is still unwell, please inform us on the third day too.*

The school's Education Welfare Officer is Mrs Rhiannon Smith. She might contact you if the school has any concern about your child's school attendance.

If your child is unwell during school time, we will contact you so that you can collect him/her. If we are unable to contact parents we phone the contact and emergency numbers that you provide us with, You will, of course, understand why it is vitally important that these contact numbers are kept up to date .



Gwyliau/ Holidays

Nid yw'r ysgol yn annog i rieni gymryd gwyliau yn ystod y tymor. Fodd bynnag, deallwn fod yna amgylchiadau teuluol sy'n golygu bod rhaid cymryd gwyliau yn ystod y tymor. Rydym yn ystyried pob cais am wyliau yn unigol gan gymryd i ystyriaeth canran presenoldeb presenol y plentyn/ canran presenoldeb gorfennol y plentyn/ oed y plentyn/ amser y flwyddyn. Bydd angen cwblhau ffurflen cais am wyliau mewn da bryd.

Gallwch ddod o hyd i ffurflen cais am wyliau ar wefan yr ysgol: https://www.ysgolbryniago.co.uk/presenoldeb-attendance/



The school does not encourage parents to take holidays during the school term. However, we understand that this is not always possible due to certain circumstances. The school will consider each request on its own merits taking into account the current attendance percentage/ the previous attendance percentage/ the child's age/ the time of the year. Please complete a 'Holiday request Form' giving the school sufficient notice.

You can find a copy of the school's holiday form on the school website:

https://www.ysgolbryniago.co.uk/presenoldeb-attendance/

Meddyginiaeth/ Medications



Ni chaniateir i ddisgyblion gadw/gario moddion, onibai am bwmp asthma. Os oes rhaid i blentyn gymryd moddion yn ystod y dydd, disgwylir i chi gwblhau cais am ddosbarthu meddyginiaeth. Er mwyn gwneud y trefniant mae'n ofynnol i chi lenwi'r ffurflen gais. Mae rhain ar gael o'r swyddfa neu ar wefan yr ysgol: https://ysgol-gynradd-gymraeg-bryniago.secure-primarysite.net/derbyn-gwybodaeth-receiving-information/

Mae'n ofynnol i riant sicrhau bod plant sy'n dioddef o asthma gael eu hyfforddi i ddefnyddio'r sugnydd heb gymorth oedolyn. Dylai'r sugnydd gael ei labelu'n glir ag enw'r plentyn. Mae'r plant yn cael y rhyddid i ddefnyddio'r sugnydd yn ôl y galw. Dylid gofyn am ffurflen asthma gan yr ysgol- ma ear gael yn swyddfa'r ysgol. Cwblhewch y ffurflen a dychwelwch ef at sylw'r CADY, Mrs Sioned Evans.

Pupils are not allowed to keep/carry medicine (unless an asthma pump). If your child must take medicine during the day you please complete an application for the school to administer medication Forms are available from the school office or on the school website: https://ysgol-gynradd-gymraeg-bryniago.secure-primarysite.net/derbyn-gwybodaeth-receiving-information/*.*

Pupils suffering from asthma must be able to self-administer without adult help. Pumps should be clearly labelled with the pupil's name. Although pumps are not kept in the classroom, pupils have access to these at all times. Please request an asthma form from the main office. Complete and return the form for the attention of the ALNCo, Mrs Sioned Evans.

Alergedd/ Allergies

Os yw eich plentyn yn dioddef o unrhyw alergedd lle mae angen triniaeth sydyn dylid hysbysu'r ysgol cyn gynted ag y bo modd. Bydd y wybodaeth yma yn cael ei rannu gyda'r swyddfa a staff y dosbarth.

If your child has an allergy that requires or may require medical attention, please contact the school as soon as possible. This information will be shared with the office staff and class staff.



Anafiadau/ Injuries

Os yw plentyn yn cael anaf y mae angen triniaeth feddygol frys ar ei gyfer yn ôl pob tebyg, byddwn yn cysylltu â'r rhiant yn syth.

Mewn argyfwng, fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd mynd ag e/hi yn syth am driniaeth fod yn gallach (e.e. i'r uned ddamweiniau).



If an injury occurs which appears to require immediate medical attention the parent will be contacted as soon as possible. In an emergency, however, the best interests of the child may be served by taking him / her for treatment (e.g. to the Casualty Department) immediately.

Hylendid Personol/ Personal Hygiene

Mae o gymorth mawr i'r ysgol pe bai eich plentyn yn gallu defnyddio'r toiled cyn mynychu'r dosbarth meithrin. Mae hyn yn golygu bod yn plentyn yn gallu sychu eu hunain, tynnu dolen y tŷ bach, gwisgo eu hunain a golchi dwylo.

Os nad yw eich plentyn wedi dysgu mynd i'r tŷ bach yn annibynnol yna hysbyswch yr ysgol yn syth. Bydd angen i chi gwblhau ffurflen ganiatad gofal personol.



It is very beneficial for the school and your child that he/she is toilet trained before starting school. This means that he/she can wipe themselves, flush the toilet, dress themselves and wash their hands.

If your child still requires nappies then you must inform the school immediately. You will need to complete an intimate care consent form.

Dyddiau Heulog/ Sunny Days



Rydym yn awyddus iawn i'r plant wisgo hetiau haul os ydyn nhw yn yr awyr agored ar ddyddiau heulog. Mae unrhyw fath o het haul call yn gwbl dderbyniol cyn belled â bod label arno sy'n nodi enw'r perchennog yn glir. Mae staff yn annog plant i chwilio am gysgod yn ystod dyddiau poeth iawn. Gan gadw gweithdrefnau Amddiffyn Plant ac Iechyd a Diogelwch mewn cof, nid ydym yn caniatáu i staff roi eli haul ar groen plant. Felly, rydym yn eich annog yn gryf i roi eli haul ar groen eich plentyn cyn mynd i'r ysgol yn y bore.

We actively encourage children to wear sun hats when they are outside on a sunny day. Any sensible type of sun hat is perfectly acceptable as long as it is clearly labelled with the owner's name. Staff encourage children to seek out shade during very hot days. With Child Protection and Health & Safety procedures in mind, we do not allow staff to apply suntan lotion to individuals. Therefore, we strongly suggest that you apply lotion to your child before morning school.

Byr-bryd dyddiol/ Daily snack



Mae croeso i'ch plentyn ddod â byr-bryd iach (ffrwyth neu lysiau) gydag ef/ hi i fwyta yn ystod y sesiwn Meithrin. Sicrhewch bod y ffrwyth wedi ei dorri yn addas i'ch plentyn fedru bwyta yn hawdd ac yn ddiogel. Gall eich plentyn hefyd ddod a photel o ddŵr yn y bag.

Your child is welcome to bring a healthy snack (fruit or veg) to eat during the Nursery session. Please prepare the snack for your child ensuring that it is suitable and safe for your child. Your child can also bring a bottle of water.

Gwasanaeth nyrs yr ysgol/ School health nurse

Mae'r Gwasanaeth Iechyd Nyrs Ysgol yn darparu addysg, cyngor a chymorth ar draws ystod o agweddau sy'n ymwneud ag iechyd disgyblion oedran ysgol ynhyd â'r gymuned ehangach. Maent yn gweithio'n agos gyda'r ysgol i ddarparu sesiynau sy'n unol â'r cwricwlwm ABCh ac ARhPh yn y dosbarth. Mae'r nyrs hefyd ar gael i weithio un i un pe dymunir. Os hoffech fwy o wybodaeth yna cysylltwch â nyrs yr ysgol, Nia Rogers, 07816180247/ 01792 517050.



The School Health Nurse Service provides education, advice and assistance in all issues related to health and public health for school aged children and the wider community. They will work closely with school to provide evidence based sessions in the classroom in line with P.S.E .and S.R.E. curriculum. School nurses are also available to discuss on a one to one basis if appropriate. If you wish to contact the school nurse, Nia Rogers, 07816180247/ 01792 517050.

Ymweliadau Addysgiadol/ Educational Visits



Gofynnwn i chi lenwi a dychwelyd ffurflenni caniatad ar gyfer ymweliadau cyn gynted â phosib. Ni fydd plant heb ffurflen ganiatâd yn gallu mynychu'r ymweliad.

Yn unol â Deddf Addysg 1988, rydym yn gofyn i rieni gyfrannu arian yn wirfoddol tuag at gostau gweithgareddau. Rhaid nodi na fyddwn yn gwahardd unrhyw blentyn o'r gweithgareddau yma os yw rhiant yn dewis peidio â chyfrannu arian yn wirfoddol. Yn yr un modd, bydd angen canslo'r digwyddiad os nad ydym yn derbyn digon o arian i'w gynnal. Bydd yr ysgol yn ceisio cadw costau gweithgareddau o'r fath mor isel â phosib ac mae'n rhaid iddynt fod yn berthnasol i nodau addysgol yr ystafell ddosbarth a'r ysgol. Os oes unrhyw riant yn wynebu caledi go iawn ac yn methu â gwneud cyfraniad ariannol llawn neu rannol, dylen nhw drafod y mater gyda'r Pennaeth a fydd yn gallu rhoi cyngor ar y sefyllfa.



We kindly ask that you return consent forms for trips as soon as possible. Children without a consent form will be unable to attend trips.

In accordance with the 1988 Education Act parents are asked to make a voluntary contribution towards school activities. It is necessary to state that no child will be excluded from these activities if a parent chooses not to make a voluntary contribution, but equally, if there are not enough contributions for the activity to be viable then it will be necessary to cancel the event. The school will try to keep the costings of such activities as low as possible and they must have a relevance to the educational aims in the classroom and school. If any parent has a genuine hardship and cannot make a voluntary contribution either in full or in part, they should discuss the matter with the Head teacher who will offer advice on the situation

Taliadau/ Payments




Mae'r ysgol yn defnyddio system dalu ar-lein. Mae hyn yn caniatau rhieni i dalu am eitemau dyddiol o fewn yr ysgol.

Cewch fwy o wybodaeth am hyn ar wefan yr ysgol:

https://ysgol-gynradd-gymraeg-bryniago.secure-primarysite.net/taliadau-payment/

The school uses the online payment programme to pay for everyday items. More information can be found about this on the school website:

https://ysgol-gynradd-gymraeg-bryniago.secure-primarysite.net/taliadau-payment/



Ymddygiad/ Behaviour



Rhaid cael ymddygiad da i allu addysgu a dysgu'n effeithiol. Rydym yn disgwyl i ddisgyblion ymddwyn yn gyfrifol ar eu pennau eu hunain a chydag eraill gan ddangos ystyriaeth, cwrteisi a pharch tuag at eraill bob amser. Dylai disgyblion gael eu hannog i ymddwyn mewn ffyrdd nad ydyn nhw'n amharu ar eraill na nhw eu hunain. Yn ymarferol, rydym yn disgwyl i blentyn gydweithio â'i athrawon a phlant eraill, peri dim perygl na phoen iddo'i hun nac i eraill, yn ogystal â pharchu llyfrau, cyfarpar, yr adeilad ac eiddo pobl eraill. Mae'r math yma o ddisgyblaeth yn berthnasol i fywyd y tu mewn a'r tu allan i'r ysgol.

Byddwn yn cysylltu â'r rhieni os ydyn ni'n poeni am ymddygiad unrhyw blentyn.

Mae gan yr ysgol bolisi ynghylch bwlio y mae'r holl staff yn ei roi ar waith. Mae modd i rieni ofyn i weld y polisi yma. Rydym yn annog rhieni i roi gwybod i'r Pennaeth yn syth am unrhyw achosion o fwlio a bydd ymchwiliad yn cael ei gynnal. Ni fydd yr ysgol yn goddef unrhyw fath o fwlio corfforol na geiriol gan unrhyw ddisgybl ac rydym yn trin pob achos o ddifrif.



Good behaviour is a necessary condition for effective teaching and learning to take place. P*upils are expected to behave in a responsible manner both to themselves and others, showing consideration, courtesy and respect for other people at all times.*
We believe in sound discipline. By this we mean that children should be encouraged to conduct themselves in ways which will not hinder others or themselves.
In practice this means that a child will be taught and expected to cooperate with his teachers and other children, cause no danger or discomfort to himself or others, have a proper respect for books, equipment, the building and other people's property. This kind of behaviour extends to his life outside school as well as inside.

The school has a Bullying Policy, which is implemented by all staff and is available for parents to view if requested. Parents are encouraged to report any incidents of bullying to the Head teacher immediately and an investigation will be held. The school will not tolerate any kind of physical or verbal bullying by any pupil and all incidents are taken seriously.

Dyma werthoedd yr ysgol/ *Here are the school values:*

• Parch/ Respect • Fairness/ Tegwch • Cymreictod/ Welshness • Hapusrwydd/ Happiness • Cydweithio/ Collaboration • · Cydraddoldeb/ Equality	• Egwyddorol/ Principled • Caredigrwydd/ Kindness • Uchelgeisiol/ Ambitious • Dyfalbarhád/ Perseverance • Diolchgar/ Thankful

Cwricwlwm Ysgol/ School curriculum

Mae'r ysgol yn dilyn canllawiau Cwricwlwm i Gymru. Rydyn ni'n dysgu o dan y Meysydd Dysgu a Phrofiad:



The school follows the Curriculum for Wales. We teach the 6 Areas of Learning:

1. Celfyddydau mynegiannol
2. Iechyd a lles
3. Dyniaethau
4. Ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu
5. Mathemateg a rhifedd
6. Gwyddoniaeth a thechnoleg

1. *Expressive arts*
2. *Health and wellbeing*
3. *Humanities*
4. *Languages, literacy and communication*
5. *Mathematics and numeracy*
6. *Science and Technology*



Rydyn ni'n ceisio ein gorau i sicrhau bod digon o staff yn y dosbarthiadau fel bod y plant yn elwa o weithio yn ymarferol y thu mewn a thu allan.

We try to ensure that there are enough staff in the classrooms so that the children benefit from working practically both indoors and outdoors.

ADY/ ALN



Diwallir anhenion addysgol y mwyafrif o'n dysgwyr drwy ddarpariaeth gynhwysol yr ysgol. Mewn rhai achosion lla mae'r angen addysgol yn ddwys neu mew nachos o anabledd, crier Cynllun Datblygu Unigol ar gyfer y disgybl yn unol â chod ADY.

Mae'r disgyblion sydd ag anghenion ychwanegol yn cael eu cynorthwyo mewn amrywiaeth eang o ddulliau. Mae hyn yn ddibynnol ar anghenion unigol pob disgybl- o fewn y dosbarth, yn unigol neu o fewn grwp. Mae cynorthwywyr dosbarth yn cynnig y gefnogaeth anghenrheidiol ar gyfer pob un disgybl. Cynhelir cyfarfodydd adolygu trwy gydol y flwyddyn. Mae'r rhieni yn rhan allweddol o'r broses yma. Mae rhyngweithio gydag asiantaethau allanol yn rhan bwysig o'r broses hefyd wrth i ni fel ysgol i asesu a gwella ein darpariaeth.
Cynhelir adolygiad blynyddol i ddisgyblion sydd a Datganiad Anghenion Arbennig. Mae cynrychiolydd o'r Awdurdod Addysg yn mynychu'r cyfarfodydd yma.

Rydyn ni'n cynnig cefnogaeth emosiynnol i gynorthwyo'r grwpiau penodol o ddysgwyr sydd angen y cymorth arbennigol yma. Mae hyn yn cynnwys cydweithio gydag asiantaethau megis consela'r Exchange yn ogystal a rhaglenni arbennigol mnegis Cwmwl Clyd a startegaethau ysgol arall.

Mae'r llywodraethwraig sydd a chyfrifoldeb dros Anghenion Arbennig yn cyfarfod yn gyson gyda staff yr ysgol, yn enwedig gydag arweinydd Anhenion Dysgu Ychwanegol yr ysgol.

The educational needs of the majority of our pupils will be met through the school's universal provision. In some cases where the educational need is severe or in a case of disability, an Individual





Development Plan will be created for the pupil in line with the ALN code.

Pupils identified as having special educational needs are supported in various ways according to the pupil's requirements – within the classroom, or on an individual or small group basis – Teaching Assistants assist with this to ensure every child has the support they need. A range of review meetings are carried out throughout the year and parents are an integral part of the process. Liaison with all outside agencies plays a key role in supporting all pupils as we continually assess and improve our services.

An annual review will be held for all pupils with a Statement of Special Educational Needs. A delegate from the Local Authority will be in attendance at this meeting.
As a school we provide a range of emotional support groups that best meet the needs of our most vulnerable groups these include Counselling by The Exchange, Cwmwl Clyd Meditation alongside a wide range of other strategies.



Cyfathrebu rhwng y cartref a'r ysgol/ Communication between the home and school

Class Dojo:

Mae'r athrawon yn cyfathrebu gyda rhieni trwy system Class Dojo. Awgrymwn i chi lawrlwytho'r ap yma. Byddwch yn derbyn cod i gael mynediad i dudalen y dosbarth wedi i'ch plentyn ddechrau yn yr ysgol.

The teachers communicate with parents via Class Dojo. Download the app. Once your child starts school you'll receive a code to access the class page.

Nosweithiau rhieni/ Parents' evenings

Bydd cyfle yn ystod bob tymor i chi drafod eich plentyn gyda'r athro dosbarth.



There will be an opportunity every term for you to discuss your child's progress with the class teacher.

Adroddiad Ysgol/ School reports



Byddwch yn derbyn adroddiad blynyddol am gynnydd eich plentyn ar ddiwedd tymor yr Haf.

You will receive an end of your report on your child's progress during the summer term.

Gwaith cartref/ Homework:



Gofynnwn i chi helpu eich plentyn gyda gwaith cartref drwy'r flwyddyn er mwyn sicrhau bod eich plentyn yn datblygu ac yn deall gwaith y dosbarth.

We ask that you help your child with homework throughout the year to ensure that he / she understands the work being undertaken in class and continues to develop.

Cylchlythyron/ Newsletter

Bydd rhieni'n cael eu hysbysu am ddigwyddiadau drwy dderbyn llythyron neu neges destun Dojo yn ôl yr angen.



Parents will be kept up to date with events by receiving Newsletters and text messages if and when the need arises.

Amddiffyn Plant/ Child Protection

Gweler ein polisiau ar wefan yr ysgol.

https://ysgol-gynradd-gymraeg-bryniago.secure-primarysite.net/amddiffyn-plant-child-protection/

Please see our policies on the school website:

https://ysgol-gynradd-gymraeg-bryniago.secure-primarysite.net/amddiffyn-plant-child-protection/

Mae'r Llywodraeth wedi cyflwyno canllawiau i ysgolion am gam-drin plant:

Mae gan bob ysgol weithdrefnau ar gyfer trin achosion posib o gam-drin disgyblion neu fyfyrwyr,gan gynnwys gweithdrefnau i'w dilyn os yw aelod o staff dan amheuaeth o gam-drin.

Dylai staff sydd wedi'u penodi i fod yn gyfrifol am faterion amddiffyn plant dderbyn hyfforddiant priodol.

The Government has issued guidance to schools about child abuse, the main points of which are as follows:-

All schools should have procedures for handling suspected cases of abuse of pupils or students, including procedures to be followed if a member of staff is accused of abuse.

Staff with designated responsibility for child protection should receive appropriate training.

Y Pennaeth, Miss Nia Jones yw'r 'athro penodedig' yn yr ysgol

Miss Nia Jones, Head teacher is the "designated teacher" in school.





Cwynion/ Complaints



Mae'r ysgol bob amser yn barod i wrando ac rydym yn annog rhieni i drafod problemau a chwynion gyda'r Pennaeth.

The school has always had an 'open door' policy and parents are urged to discuss problems and grievances with the Head teacher.

CRA/ PTA

Mae gan yr ysgol Gymdeithas Rieni ac Athrawon weithgar sydd â rôl bwysig yn cefnogi amcanion yr ysgol a chodi arian ychwanegol. Gobeithiwn y bydd pob rhiant yn cefnogi'r gymdeithas yn eu hymdrechion i helpu'r ysgol a chreu cyswllt cryfach rhwng yr ysgol a'r cartref.



The school has an active PTA which has a vital role in supporting the aims of the school and in raising additional funds. It is hoped that every parent will support the association in its efforts to help the school and create an even stronger link between the school and home.

Canllaw dechrau ysgol/ Tips for starting school

Byddwch yn amyneddgar yn ystod yr wythnosau cyntaf, tra bod eich plentyn yn ymgartrefu'n yr ysgol. Os ydych yn poeni o gwbl, yna ffoniwch neu alwch i mewn. Rydym yn deall ei bod hi'n amser anodd i'r plentyn a'r rhiant! Os ydych plentyn yn anhapus gadewch i ni wybod. Rydym yma i helpu. Cedwir popeth yn gyfrinachol. COFIWCH Y peth pwysicaf y gallwch wneud yw siarad â'ch plentyn. Chi yw'r person pwysicaf yng ngolwg y plentyn. Chi yw'r un sy'n dylanwadu ar y ffordd mae eich plentyn yn teimlo, meddwl ac ymddwyn. Gweithiwn gyda'n gilydd i sicrhau y gorau i'ch plentyn.

Please be patient during the first few weeks as your child settles into a new school routine. Do ring us or call in if you are at all concerned. We understand it could be a difficult time for you and your child. If your child is unhappy please let us know, we are here to help. Everything you say is always in confidence. REMEMBER The most important thing that you can do is talk to your child. You are the most important person in your child's life. You are the one who will influence the way your child feels, thinks and acts. If we work together then we can truly say that we are giving your child the very best start in life.



Cyn dechrau yn yr ysgol, ceisiwch ddysgu eich plentyn i…

Before starting school, please encourage your child to…

- ✓ ddefnyddio'r tŷ bach yn annibynnol.
- ✓ olchi a sychu dwylo ar ôl defnyddio'r tŷ bach.
- ✓ ddefnyddio hances i sychu trwyn.
- ✓ i rannu ag eraill
- ✓ i aros ei d/thro
- ✓ i wisgo cot yn annibynnol

- ✓ *use the toilet independently*
- ✓ *wash his/her hands after using the toilet.*
- ✓ *use a handkerchief to wipe his/her nose.*
- ✓ *share with others.*
- ✓ *wait his/her turn.*
- ✓ *to put his/her coat on independently*







Helpwch yr athrawes drwy…

Help the teacher by...

- Labelu popeth—dillad, cotiau esgidiau a bagiau.
- Ddysgu eich plentyn i wisgo a dadwisgo'n lled annibynnol.
- Peidio â gadael eich plentyn wisgo gemwaith na dod a theganau i'r ysgol.
- Helpu eich plentyn i adnabod ac ysgrifennu ei enw/ henw'n gywir. Defnyddiwch briflythyren ar gychwyn yr enw'n unig.
- Rhoi cyfleoedd i'ch plentyn ddefnyddio digon o offer creadigol e.e creonau, pensiliau, papur, glud, siswrn a phaent.
- Wylio rhaglenni addas gyda'ch plentyn e.e Cyw ar S4C.

- *Labelling everything—clothes, coats, shoes and bags.*
- *Teaching your child to dress and undress with minimal help.*
- *Not allowing your child to wear jewellery and bring toys to school.*
- *Helping your child to recognise and write his / her name correctly. Use capital letters only at the beginning of their name.*
- *Giving your child the opportunity to use a variety of creative materials such as crayons, pencils, paint, scissors and glue.*
- *Watch pre-school programmes with your child e.g. Cyw on S4C.*

Llun i Gwener

Cyw - 6.00yb - 12yp

Stwnsh- 4.00yh – 6:00yh

Penwythnosau

Cyw - 6.00yb - 8.00yb

Stwnsh Sadwrn - 8.00yb - 10.00yb

Weekdays

Cyw - 6.00am - 12pm

Stwnsh- 4.00pm - 6.00pm

Weekends

Cyw - 6.00am - 8.00am

Stwnsh Sadwrn - 8.00am - 10.00am

Ffurfio Llythrennau a Rhifau/
Letter and Number Formation



Ni ddisgwylir i'ch plentyn allu ysgrifennu cyn dechrau yn yr ysgol ond mae rhai plant yn awyddus i wneud. Felly, rydym wedi cynnwys taflen ffurfio llythrennau a rhifau er gwybodaeth

We do not expect your child to be able to write letters or numbers before they start school. However, some children are keen to do so.

Geirfa i'ch helpu/
Welsh vocabulary to help

Ysgol – school	byrbryd – snack	cofrestru – registration	peintio – painting
tywod - sand	adeiladu - modelling	darllen - reading	llythyr – letter
arian cinio – dinner money	gwisg ysgol – school uniform	ymarfer corff – physical education	cyfrifiadur - computer
dŵr – water	toes – play dough	coginio - cooking	tŷ bach - toilet

Diwrnod cyntaf eich plentyn yn yr ysgol…/ Your child's first day in school…

Mae diwrnod cyntaf eich plentyn yn yr ysgol yn un i'w drysori ac fe wnawn bob ymdrech i wneud yn siŵr ei fod yn un hapus a chofiadwy i bawb.

Mi fydd plant y dosbarth Feithrin yn dechrau fesul dipyn, a hynny er mwyn rhoi cyfle iddynt ymgartrefu ac ymgyfarwyddo â wynebau newydd yn ogystal â'u hamgylchedd dysgu newydd. Bydd hefyd yn gyfle gwerthfawr i rieni a staff ddod i adnabod ei gilydd.

Gofynnwn yn garedig i chi hebrwng eich plentyn i brif fynedfa Bryniago Bach lle bydd aelodau staff yno, i'ch cyfarch a'ch helpu. Bydd yr athrawes ddosbarth ynghyd â chynorthwywyr y dosbarth ar gael i arwain eich plentyn i'r ystafell ddosbarth. Yno, bydd llu o weithgareddau deniadol wedi eu paratoi, a bydd rhwydd-hynt i'r plant chwarae ac ymlwybro o amgylch y dosbarth yn ystod eu sesiwn cyntaf.

Gofynnwn eich bod yn ffarwelio'n hapus â'ch plentyn. Mae'n bur debygol y bydd rhai plant yn ddagreuol wrth i rieni eu gadael am y tro cyntaf, ond digon buan y byddant yn dod i'r arfer â ffarwelio. Os teimlwn fod eich plentyn yn parhau i ofidio ar ôl cyfnod o amser, mi gysylltwn ni â chi.

Byddwn yn trosglwyddo plant yn ddiogel i'w rhiant / gwarcheidwad bob yn un ar ddiwedd y sesiwn. COFIWCH roi gwybod os oes rhywun gwahanol yn casglu eich plentyn, boed hynny drwy e-bost neu lythyr. Ni chaniatawn i blentyn fynd adref gydag unrhyw un dieithr.

Enjoy your child's first school experiences. It is a valuable time in their development! If there is anything you would like to discuss, we encourage you to share your thoughts with us.

Your child's first day is an important day and we will do our very best to ensure that it is a happy and memorable day for all concerned.

Nursery children will start school on a staggered group-by-group basis. This will give them the chance to settle in and familiarise themselves with new faces and learning environment. It's also a great opportunity for parents and staff to get to know each other.

On their first day, we ask that you escort your child to the main entrance where members of staff will greet you and help you on your first day. A member of staff will then guide your child into the classroom where there will be a number of activities laid out for the children to play freely during their first session.

We kindly ask that you say goodbye to your child in a swift and jolly manner. It is likely that some children will be tearful when parents leave them on their first day, but most children settle in very quickly. If your child continues to cry after a reasonable time, we will contact you.

